

Polisi a Gweithdrefnau Diogelu a Prevent

Awdur: Cath Hicks / N.Perkins
Dyddiad: Rhagfyr 2019



POLISI A GWEITHDREFNAU DIOGELU A PREVENT

CYNNWYS

1. Cyflwyniad	3
2. Cwmpas	3
3. Diben	5
4. Disgwyliadau	6
5. Cyfrifoldebau'r Uwch Dîm Rheoli	6
6. Cyfrifoldebau'r Tîm Diogelu Dynodedig	7
7. Cyfrifoldebau'r Holl Staff	8
8. Recriwtio Diogelach	8
9. Diogelu a Dyletswydd Prevent	9
Table 1: Gwerthoedd	9
10. Diogelwch Ar-lein	11
11. Adnoddau a Dogfennau Diogelu	12
12. Gweithdrefnau i Roi Gwybod am Bryder neu Ddatgeliad yn ymwneud â Chamdriniaeth neu Ddiogelu	12
Tabl 2: Manylion cysylltu'r Tîm Diogelu	13
13. Cyfrinachedd a Chydsyniad	15
14. Adnabod Achosion Diogelu Posibl	16
15. Ymwybyddiaeth o Niwed neu Gamdriniaeth yn Diwgydd y y Sefydliad	17
16. Cyfathrebu	18
17. Monitro ac Adolygu	18
Atodiad 1 – Siart Llif ynghylch ymdrin â Phryder a Amheuri neu Ddatgeliad yn ymwneud â Diogelu (Atodiad 1)	20
Atodiad 2 - Adnoddau	21
Atodiad 3 – Cysylltiadau Allweddol i Gael Cyngor ynghylch Diogelu a Prevent	22
Atodiad 4 - Cod Ymddygiad ynghylch Diogelu ar gyfer Staff a Gwirfoddolwyr AOC ALW (Atodiad 4)	23
Atodiad 5 – Ffurflen Digwyddiad Diogelu	25

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales (AOC|ALW) wedi ymrwymo i wella ymwybyddiaeth staff o bob agwedd o lesiant a diogelu dysgwyr, atal camdriniaeth lle gellir gwneud hynny a sicrhau bod arferion cryf yn eu lle i ymdrin ag achosion o gamdriniaeth.
- 1.2 Rydym ni'n ymrwymo i ddarparu amgylchedd ble gall ein dysgwyr deimlo'n ddiogel wrth ddysgu a chael hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed.
- 1.3 Rydym ni'n cydnabod ein cyfrifoldeb i ddiogelu llesiant dysgwyr sydd wedi cofrestru i gyfranogi yn ein cyrsiau neu ein gweithgareddau, a byddwn ni'n ymdrechu i ddarparu cymorth sy'n cyd-fynd â'u hanghenion unigol.
- 1.4 Rydym ni'n ymrwymo i gymryd camau priodol i ddiogelu dysgwyr rhag camdriniaeth, erledigaeth, bwlio, camfanteisio, ymddygiadau eithafol, safbwyntiau gwahaniaethol, cael eu denu at eithafiaeth ac ymddygiadau mentrus. Mae hyn yn cynnwys cydweithio ag asiantaethau lleol/cenedlaethol eraill i sefydlu gweithdrefnau priodol i roi gwybod am achosion, atgyfeirio a chael hyfforddiant a chymorth arbenigol pan fo hynny'n ofynnol.
- 1.5 Rydym ni hefyd yn cydnabod ein cyfrifoldeb i gydymffurfio â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015; Canllawiau Diwygiedig Dyletswydd Prevent ar gyfer Cymru a Lloegr (Gorffennaf 2015) ac arferion gorau o ran creu "Cymuned Dysgu Ddiogel" a byddwn yn ceisio sicrhau bod ein polisi a'n gweithdrefnau yn cyd-fynd â dyletswyddau statudol, yn adlewyrchu canllawiau ac arferion da ym maes diogelu, a bod trefniadau diogelu yn gymesur ac yn seiliedig ar synnwyr cyffredin.
- 1.6 **Polisiâu, gweithdrefnau a dogfennau canllawiau cysylltiedig eraill:**
 - Cynllun Strategol ynghylch Cydraddoldeb
 - Polisi DBS ac Euogfarnau Troseddol
 - Polisi Gwarchod Data
 - Polisi Cynorthwyo Dysgwyr
 - Cod Ymddygiad Dysgwyr
 - Llawlyfr i Ddysgwyr
 - Polisi Defnydd Derbyniol – Rhwydwaith TG
 - Polisi Chwythu'r Chwiban

2. CWMPAS

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff a gyflogir ar gontractau amser llawn, rhan amser neu sesiynol, gweithwyr cynorthwyo a gwirfoddolwyr. Mae hefyd yn berthnasol i sefydliadau ble bydd dysgwyr yn treulio cyfnod ar leoliad/yn gwneud profiad gwaith ac mewn darpariaeth gan isgontractwyr.
- 2.2 Mae'r polisi hwn yn ei lle i ddiogelu rhag pob mathau o gamdriniaeth, a gall hynny gynnwys:

- **Bwlio** - Ymddygiad tramgwyddus, bygythiol, maleisus neu sarhaus, cam-drin neu gamddefnyddio pŵer trwy ddulliau sy'n tanseilio, bychanu, pardduo neu anafu'r derbynnydd.
- **Ymddygiad rheoli** – dyma ystod o weithredoedd sydd wedi'u cynllunio i wneud unigolion yn israddol a/neu'n ddibynnol trwy eu hynysu oddi wrth ffynonellau cymorth, manteisio ar eu hadnoddau a'u galluoedd er budd personol, a'u hamddifadu o'r dulliau sydd eu hangen ar gyfer annibyniaeth, ymwrthedd a dianc, a rheoleiddio eu hymddygiad beunyddiol.
- **Llinellau cyffuriau** – mae'n cyfeirio at fodel a ddefnyddir gan gangiau i gyflenwi cyffuriau. Bydd y gangiau hyn yn aml yn camfanteisio ar blant ac oedolion sy'n agored i niwed i'w defnyddio i gludo cyffuriau i fannau eraill. Bydd gangiau yn meddiannu cartrefi rhai oedolion sy'n agored i niwed ('cuckooing') gan ddefnyddio grym neu orfodaeth.
- **Camdriniaeth ar-lein** – defnyddio'r rhyngwrdd a ffonau symudol neu gyfryngau cymdeithasol i fwlio rhywun ar-lein.
- **Gwahaniaethu** – camdriniaeth sy'n cael ei gymell gan agweddau gwahaniaethol, er enghraifft, tuag at hil, crefydd, diwylliant, rhywedd, anabledd, tueddfryd rhywiol.
- **Camdriniaeth ddomestig** – unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o reoli, gorfodi, ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin rhwng y sawl sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu, waeth beth fo'u rhywedd neu rywioldeb. Gall y cam-drin gwmpasu mathau seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol o gam-drin, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hynny.
- **Gwerthu cyffuriau**- ceir gwaharddiad llwyr ar ddefnyddio'r amgylchedd dysgu fel dull o werthu cyffuriau a chaiff ei ystyried yn fater diogelu difrifol y dylid hysbysu'r heddlu amdano.
- **Emosiynol** – ymddygiad sy'n cael effaith niweidiol ar iechyd a datblygiad emosiynol, er enghraifft, sarhad, bygythiadau, codi cywilydd, pob mathau o droseddau casineb, bwlio (gan gynnwys seiber-fwlio) ac mae'n cynnwys dylanwadu'n afresymol ar rywun neu ymddygiad i reoli unigolyn arall.
- **Eithafiaeth** – gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd democratiaeth, trefn y gyfraith, rhyddid unigolion, cyd-barch a goddef gwahanol grefyddau a chredoau.
- **Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)** – yn y DU, mae pob math o FGM yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003, p'un ai a yw hynny yn y DU neu beidio (waeth beth fo'u cenedligrwydd a'u statws preswyllo), ac mae'n anghyfreithlon i ddinasyddion y DU neu Drigolion Parhaol y DU berfformio FGM dramor neu gynorthwyo ag FGM sy'n digwydd dramor.
- **Priodasau dan Orfod** – pan na fydd o leiaf un parti yn cydsynio i'r briodas a bod rhyw elfen o orfodaeth yn gysylltiedig. Mae priodas dan orfod yn drosedd, o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014. Mae hyn yn cynnwys mynd â rhywun dramor i'w (g)orfodi i briodi (p'un ai a fydd y briodas dan orfod yn digwydd ai peidio); priodi rhywun sydd heb y galluedd meddyliol i gydsynio i briodas; torri Gorchymyn Diogelu Priodas dan Orfod.
- **Camdriniaeth ariannol** – gall gynnwys dwyn, twyll, camfanteisio a rhoi pwysau ar rywun mewn perthynas ag ewyllysiau, eiddo, etifeddiaeth neu drafodion ariannol. Gall gynnwys camddefnyddio eiddo, meddiannau neu fudd-daliadau gan rywun yr ymddiriedwyd ynddo i drin eu cyllid neu sydd wedi cymryd rheolaeth o'u cyllid yn ddiodyn.

- **Meithrin perthynas amhriodol**, yn cynnwys gwneud hynny ar-lein – bydd hyn yn digwydd pan fydd rhywun yn datblygu cysylltiad emosiynol ag unigolyn arall i ennill ei ymddiriedaeth at ddibenion cam-drin rhywiol yn y dyfodol neu fath arall o gamfanteisio.
- **Sefydliadol**– bydd arferion gwaith neu weithdrefnau derbynol gwasanaeth yn cael effaith gamdriniol ar rai o ddefnyddwyr (neu holl ddefnyddwyr) y gwasanaeth hwnnw, er enghraifft diffyg preifatrwydd neu oruchwyliaeth, diffyg dewis ac ystyriaeth.
- **Esgeulustod meddygol** – dyma'r methiant i ddarparu gofal iechyd, meddyginiaeth neu driniaethau priodol ar gyfer plentyn neu oedolyn bregus.
- **Caethwasiaeth Fodern / Llafur Dan Orfodaeth** – gweithio am ychydig iawn o arian, dan amgylchiadau gwael, am oriau maith. Gallai gynnwys gorfodi rhywun i droseddu a chamfanteisio'n rhywiol ar rywun.
- **Esgeulustod** – diffyg gofal, er enghraifft bwyd annigonol, peidio rhoi moddion, diffyg mynediad ar gyfer hylendid personol. Bydd esgeulustod emosiynol yn digwydd pan amddifadir plant o gariad ac anwyldeb.
- **Camdriniaeth corfforol** – defnyddio grym gan achosi poen neu anaf, er enghraifft, trwy daro, ysgwyd a llosgi.
- **Camdriniaeth seicolegol** – yn cynnwys bygythiadau o niwed, rheolaeth, dychryn, gorfodaeth, aflonyddu, cam-drin geiriol, ynysu gorfodol neu dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cymorth. Gellir ystyried codi cywilydd, bwlio, gweiddi neu regi yn fathau o gamdriniaeth hefyd.
- **Radicaiddio** – dyma'r broses lle bydd unigolyn neu grŵp yn dod i fabwysiadu delfrydau a dyheadau gwleidyddol, cymdeithasol neu grefyddol cynyddol eithafol sy'n gwrthod neu'n tansilio'r *status quo* neu'n gwrthod ac/neu'n tansilio syniadau cyfoes a mynegiadau o ryddid i ddewis.
- **Hunan-esgeuluso** gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, anhwylderau bwyta a chelcio, hunan-niweidio neu fetu â cheisio cymorth meddygol ynghylch cyflwr iechyd neu reoli'r cyflwr hwnnw yn gyfrifol.
- **Camdriniaeth rhywiol** – cyfranogi mewn gweithgarwch rhywiol sy'n ddigroeso neu heb ei ddeall neu gyda rhywun sydd o dan oed. Gallai hyn gynnwys priodas dan orfod, camfanteisio'n rhywiol ar blentyn, aflonyddu, pryfocio neu ensyniadau.
- **Camfanteisio rhywiol** – bydd hyn yn digwydd pan fydd plentyn neu berson ifanc, neu berson arall, yn derbyn 'rhywbeth' (er enghraifft, nwyddau, llety, cyffuriau, alcohol, sigarêts, hoffter, anrhegion, arian) o ganlyniad i'r plentyn/person ifanc yn cyflawni gweithgareddau rhywiol, neu berson arall yn perfformio gweithgareddau rhywiol ar y plentyn / person ifanc.

3. DIBEN

3.1 Diben y Polisi a'r Gweithdrefnau Diogelu a Prevent yw sicrhau bod AOC | ALW yn darparu amgylchedd diogel i bobl ifanc ac oedolion agored i niwed i'w galluogi i ddysgu dysgu. Fel Coleg Cymunedol, rydym ni'n ymrwymo i'r canlynol:

- Sefydlu amgylchedd ble bydd dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn werthfawr, yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, ac yn gwybod y byddant yn cael gwrandawriad.

- Hybu diwylliant dysgu cydnerth a chryf ar gyfer ein dysgwyr, sy'n seiliedig ar werthoedd a rennir sy'n cyd-fynd â gwerthoedd rhyddid, cyfiawnder, democratiaeth a chyd-barch.
- Gwella ymwybyddiaeth i alluogi staff i adnabod dysgwyr a all fod yn profi gwahanol fathau o gamdriniaeth neu mewn perygl o hynny, a'r risgiau a'r sefyllfaoedd sy'n gallu gwneud dysgwyr yn agored i niwed.
- Lleihau'r risgiau posibl y gall dysgwyr eu hwynebu sy'n eu gwneud yn agored i ddod i gysylltiad â thrais, eithafiaeth, camfanteisio neu erledigaeth.
- Amlinellu'n glir beth yw cyfrifoldebau'r sefydliad ac unigolion i nodi a rhoi gwybod am achosion posibl o gamdriniaeth neu bryderon am radicaleiddio neu eithafiaeth, ac ymateb i bryderon cyn gynted ag y bo modd.
- Darparu gweithdrefnau eglur ar gyfer staff i'w galluogi i roi gwybod am achosion o gamdriniaeth a amheuir neu i roi gwybod am rywbeth a gaiff ei ddatgelu, neu pan fydd pryderon wedi cael eu nodi ynghylch radicaleiddio neu eithafiaeth.
- Atgyfeirio dysgwyr pan fo hynny'n briodol at asiantaethau perthnasol megis yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, Channel a byrddau diogelu lleol (gweler Atodiad 3).

4. DISGWYLIADAU

4.1 Bydd yr holl staff a'r gwirfoddolwyr yn:-

- Dod yn gyfarwydd â'r Polisi Diogelu a Prevent hwn.
- Gwyllo am arwyddion a dangosyddion camdriniaeth bosibl.
- Cyfranogi ym mhrosesau a gwiriadau Recriwtio Diogelach, pa un ai a ydynt yn staff newydd, staff llanw neu'n wirfoddolwyr.
- Cofnodi pryderon ac yn cysylltu ag aelod o'r Tîm Diogelu dynodedig o fewn 45 munud ar ôl dod yn ymwybodol o rywbeth, ni waeth pa mor ddi-nod fydd eu pryderon yn ymddangos.
- Ymdrin â datgeliad o gamdriniaeth gan ddysgwyr trwy hysbysu aelod o'r Tîm Diogelu dynodedig yn syth a darparu adroddiad ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd.
- Annog arferion gweithio diogel ymhlith eu cymheiriaid a herio ymddygiad gwael ac anniogel.
- Sicrhau eu bod yn cadw at yr holl weithdrefnau iechyd a diogelwch a nodir ym Mholisi Iechyd a Diogelwch Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales.
- Mynychu hyfforddiant ynghylch diogelu a Prevent pan fydd hynny ar gael.
- Os byddant yn credu nad yw'r sefydliad wedi ymateb i fater yn ymwneud â diogelu neu Prevent yn briodol, dylai staff gysylltu heb oedi'n ddiangen â'r corff perthnasol, h.y. yr heddlu, gwasanaethau oedolion neu blant, y bwrdd diogelu neu Channel ynghylch eu pryderon.

5. CYFRIFOLDEBAU'R UWCH DÎM RHEOLI

- 5.1 Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle i gynnal diogelwch dysgwyr, staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr.
- 5.2 Bydd yr Uwch Dîm Rheoli yn sicrhau:
- Bod gan AOC | ALW bolisi diogelu sy'n cyd-fynd â'i gyfrifoldebau statudol ac â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
 - Bod AOC | ALW yn gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogelach ac yn sicrhau y gwneir y gwiriadau priodol pan benodir unrhyw staff newydd a gwirfoddolwyr perthynas.
 - Bod un uwch aelod o'r tîm arwain yn gweithredu fel Arweinydd Diogelu Dynodedig.
 - Bod yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn mynychu hyfforddiant diweddarau bod dwy flynedd.
 - Bod yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn rhoi diweddariadau rheolaidd i wasanaethau ynghylch materion diogelu.
 - Bod staff a gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant ynghylch diogelu a Dyletswydd Prevent.
 - Bod gan AOC | ALW weithdrefnau yn eu lle i ymateb i honiadau o gamdriniaeth yn erbyn staff/gwirfoddolwyr.

6. CYFRIFOLDEBAU'R TÎM DIOGELU DYNODEDIG

- 6.1 **Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau** yw'r Aelod Dynodedig o'r Uwch Dîm Rheoli sy'n arwain Materion Diogelu. Deiliad y swydd hon sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ac ef/hi sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolwyr a'u hatebolrwydd mewn perthynas â hynny. Ar y cyd â'r Prif Weithredwr, mae'r Arweinydd yn gyfrifol am gydlynu'r holl weithgarwch ynghylch diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.
- 6.2 Mae'r **Unigolyn Dynodedig sy'n Arwain Materion Diogelu** hefyd yn gyfrifol am y canlynol:-
- Sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio staff yn cynnwys gwiriadau diogelu priodol.
 - Sicrhau bod staff a dysgwyr yn deall y polisi hwn a'r gweithdrefnau hyn ac yn eu gweithredu'n llawn.
 - Sicrhau bod yr holl staff, dysgwyr, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr yn credu y gallant fynegi pryderon ynghylch diogelu a Prevent ac y byddir yn ymdrin yn sensitif ac yn effeithiol â phryderon o'r fath, yn unol â gweithdrefnau'r Sefydliad.
 - Trefnu hyfforddiant ynghylch Prevent ar gyfer pob cyflogai.
 - Trefnu hyfforddiant ynghylch diogelu ar gyfer yr aelodau hynny o'r staff sy'n dod i gysylltiad â grwpiau sy'n agored i niwed a phlant a phobl ifanc.
 - Penodi pobl i wneud rolau Swyddogion Diogelu.
 - Sicrhau bod digonedd o adnoddau ac amser ar gael i'r Swyddogion Diogelu i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau.

- Sicrhau bod y Corff Llywodraethu a'r Uwch Dîm Rheoli yn cael adroddiad blynyddol am faterion Diogelu a'r dyletswyddau a gyflawnir.

- 6.3 Bydd Swyddogion Diogelu yn cysylltu â'r asiantaethau lleol a chenedlaethol priodol ynghylch materion a phryderon yn ymwneud â diogelu a Prevent; yn darparu cyngor a chymorth i gydweithwyr ynghylch materion sy'n ymwneud â diogelu a Prevent ac yn ymdrin ag achosion unigol o gamdriniaeth a amheuir a/neu atgyfeiriadau ac yn eu monitro.
- 6.4 Bydd yn ofynnol i bob Swyddog Diogelu dynodedig ddiweddar eu hyfforddiant yn flynyddol.
- 6.5 Bydd y Swyddogion Diogelu yn cadw at ac yn hyrwyddo'r polisi hwn o fewn y sefydliad, ac yn cynorthwyo a/neu'n darparu mynediad at gymorth i unigolion sy'n dioddef niwed neu gamdriniaeth, ac unigolion sy'n dod i gysylltiad â hwy.
- 6.6 Bydd y Swyddogion Diogelu yn cadw cofnod o unrhyw honiadau/pryderon a fynegir, yn cynnwys rhai gan ddysgwyr neu staff, neu o ffynonellau eraill. Bydd unrhyw sgysiau ynghylch yr honiadau/pryderon hyn ag asiantaethau allanol yn cael eu cofnodi mewn ysgrifen ac yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel.
- 6.7 Mae'r Swyddogion Diogelu hefyd yn gyfrifol am hysbysu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) os bydd unigolyn yn rhoi'r gorau i weithio i Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales a bydd sail i gredu ei fod/bod yn anaddas i weithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed.

7. CYFRIFOLDEBAU'R HOLL STAFF

- 7.1 Mae'r holl staff yn gyfrifol am gydymffurfio â gofynion AOC | ALW ynghylch DBS a gwarchod data, a dod yn gyfarwydd â sut i roi'r gweithdrefnau diogelu hyn ar waith.
- 7.2 Mae bob rheolwr llinell yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi hwn a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu gweithredu'n llawn gan y staff y maent yn rheolwyr llinell iddynt, gan sicrhau bod hyfforddiant sefydlu ar gyfer staff a gwirfoddolwyr newydd yn cynnwys ymwybyddiaeth o faterion diogelu a bod unrhyw staff newydd yn cael copi o'r Polisi Diogelu a Prevent.

8. RECRIWTIO DIOGELACH

- 8.1 Er mwyn recriwtio pobl i swyddi mewn modd diogel, bydd Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn mynd ati i recriwtio gan ddefnyddio gweithdrefnau, trefniadau diogelu a gwiriadau.
- 8.2 Byddwn yn archwilio cefndir ymgeiswyr, gan gadarnhau Hawl i Weithio yn y DU a chymwysterau, ac yn sicrhau geirdaon addas ynghylch pob swydd a phob rôl wirfoddol cyn penodi, ac yn gwirio hanes eu cyflogaeth flaenorol.
- 8.3 Byddwn yn defnyddio gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'n helpu ni i asesu addasrwydd pan fydd cymhwysra i wneud hynny.

- 8.4 Dim ond y rolau hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant sy'n cael eu diffinio fel "gweithgarwch rheoledig" sy'n gymwys i gael gwiriad DBS ynghyd â gwiriad o'r rhestri gwahardd. Nid yw rolau sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag oedolion sy'n ddysgwyr yn cael eu hystyried yn "weithgarwch rheoledig", felly nid ydym ni'n gallu cynnal gwiriadau DBS oni bydd y rôl yn cynnwys gwaith gyda grwpiau sy'n agored i niwed a chyflawnir meini prawf penodol. Mae'r rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth y tîm Adnoddau Dynol.
- 8.5 Polisi Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yw adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd yn achos deiliaid swyddi penodedig.
- 8.6 Bydd yn rhaid i'r sawl a benodir i wneud swyddi addysgu a chynorthwyo dysgwyr fod wedi'u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg, sy'n cynnig sicrwydd nad oes gan unigolion cofrestredig unrhyw beth perthnasol wedi'i gofnodi yn eu herbyn sy'n eu gwneud yn anaddas i addysgu dysgwyr, a phlant a phobl ifanc yn benodol.
- 8.7 Ar adeg y cais, bydd disgwyl i gyflogeion sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda dysgwyr lenwi datganiad am unrhyw gollfarnau neu rybuddion maent wedi'u cael na chânt eu hidlo gan wiriad y DBS ar hyn o bryd, oherwydd mae'r swyddi hyn wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwr 1974. Byddwn yn gofyn i'r holl gyflogeion a ydynt wedi cael unrhyw euogfarnau neu rybuddion na chânt eu hidlo ar hyn o bryd gan y DBS.

9. **DIOGELU A DYLETSWYDD PREVENT**

- 9.1 Yn 2010, fe wnaeth y Llywodraeth gyhoeddi strategaeth Prevent, sy'n ymdrin â'r angen penodol i ddiogelu oedolion, pobl ifanc a phlant rhag eithafiaeth.
- 9.2 Mae AOC | ALW yn parchu rhyddid i fynegi barn a chredoau fel hawliau sylfaenol sy'n sail i werthoedd ein cymdeithas. Rydym ni hefyd yn credu bod rhyddid barn yn destun cyfreithiau a pholisïau sy'n llywodraethu cydraddoldeb, hawliau dynol, diogelwch cymunedau a chydlyniant cymunedau.
- 9.3 Dyma ddiffiniad y llywodraeth o eithafiaeth: "gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd Prydeinig, yn cynnwys democratiaeth, trefn y gyfraith, rhyddid unigolion, cydbarch a goddef gwahanol grefyddau a chredoau".
- 9.4 Mae Dyletswydd Prevent yn cyfeirio at y term "Gwerthoedd Prydeinig". Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn rhannu ethos cadarnhaol, teg a democrataidd sy'n seiliedig ar y gwerthoedd dilynol (Tabl 1) ac mae'n eu hyrwyddo ar draws ei gymunedau.
- 9.5 Table 1: Gwerthoedd

<i>Rhyddid:</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Y rhyddid i fyw fel y dymunwch a mynd lle dymunwch chi. • Eich helpu chi i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. • Ysgwyddo cyfrifoldeb am eich dewisiadau a'u harfer yn ddiogel. • Sicrhau eich bod chi'n gwybod eich hawliau.
<i>Cyfiawnder – Trefn y Gyfraith:</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Tegwch yn y ffordd yr ymdrinnir â phobl. • Archwilio'r deddfau sy'n ein llywodraethu a'n hamddiffyn. • Deall y canlyniadau os torrir y rheolau hyn. • Ystyried y gallai'r rhain fod yn wahanol i gyfreithiau crefyddol.
<i>Democratiaeth:</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Y gred mewn rhyddid a chydaddoldeb rhwng pobl. • Gwybodaeth gyffredinol eang am sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus a pharch tuag atynt • Eich helpu chi i ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau trwy'r broses ddemocrataidd. • Esbonio manteision ac anfanteision democratiaeth.
<i>Parch – Cyd-barch:</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Goddefgarwch at y sawl sydd â gwerthoedd a chredoau gwahanol. • Deall sut mae eich ymddygiad yn cael effaith ar eich hawliau eich hun a hawliau pobl eraill. • Parchu gwahaniaethau pobl eraill a diwylliannau a ffyrdd o fyw eraill. • Herio ymddygiad rhagfarnllyd neu wahaniaethol.

9.6 Mae AOC | ALW yn ceisio amddiffyn dysgwyr rhag negeseuon eithaol, ac mae hynny'n cynnwys y negeseuon hynny sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth wleidyddol, eithafiaeth grefyddol ac eithafiaeth hawliau anifeiliaid, yn ogystal â negeseuon eithafol eraill. Rydym ni'n ymrwymo i gynorthwyo'r sawl sy'n agored i gael eu radicaiddio a'u ffrindiau a'u teuluoedd trwy wella ymwybyddiaeth, atgyfeirio'n briodol at asiantaethau cymorth a sicrhau diwylliant agored ble gall dysgwyr ofyn am gymorth.

9.7 Mae **dangosyddion rhywun sy'n agored i gael ei radicaiddio/dod dan ddylanwad eithafiaeth** yn cynnwys:

- **Argyfwng Hunaniaeth** – mae'r dysgwr wedi ymbellhau oddi wrth ei gefndir diwylliannol/crefyddol ac mae'n profi anesmwythyd ynghylch ei le yn y gymdeithas.
- **Argyfwng Personol** – gall y dysgwr fod yn profi tensiynau teuluol; ymdeimlad o unigedd; a diffyg hunan-barch; efallai ei fod wedi ymddieithrio o'u grŵp cyfeillgarwch presennol ac wedi dod yn gysylltiedig â grŵp newydd a gwahanol o ffrindiau; efallai ei fod yn chwilio am atebion i gwestiynau am hunaniaeth, ffydd a pherthyn.
- **Amgylchiadau Personol** – muddo, tensiynau cymunedol lleol; gall digwyddiadau sy'n effeithio ar y wlad neu'r rhanbarth o ble maer dysgwr yn hanu gyfrannu at ymdeimlad o

achwyniad sy'n cael ei sbarduno gan brofiad personol o hiliaeth neu wahaniaethu neu agweddau ar bolisi'r Llywodraeth.

- **Dyheadau heb eu Cyflawni** – efallai bod gan y dysgwr ganfyddiadau o anghyfiawnder; teimlad o fethiant; gwrthod bywyd dinesig.
- **Profiadau o Droseddoldeb** – gall hynny gynnwys cyfranogi yng ngweithgareddau grwpiau o droseddwyr, cyfnodau yn y carchar, ac ailsefydlu/ailintegreiddio gwael.
- **Anghenion Addysgol Arbennig** – gall y dysgwr brofi anawsterau ynghylch rhyngweithio cymdeithasol, empathi ag eraill, deall canlyniadau ei weithredoedd ac ymwybyddiaeth o gymhellion pobl eraill.

D.S.: Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, ac nid yw'n golygu ychwaith bod yr holl ddysgwyr sy'n profi'r uchod mewn perygl o gael eu radicaleiddio neu ddod i gysylltiad ag eithafiaeth.

Gallai ffactorau risgiau mwy difrifol gynnwys: Bod mewn cysylltiad â rhywun sy'n recriwtio ar ran eithafwyr;

- Cyrchu gwefannau eithafol, yn enwedig rhai sydd ag elfennau o rwydweithio cymdeithasol;
- Meddu ar neu gyrchu llenyddiaeth eithafol;
- Defnyddio naratifau eithafol ac ideoleg fyd-eang i egluro anfanteision personol;
- Cyfiawnhau'r defnydd o drais i ddatrys materion cymdeithasol;
- Ymuno â chyrrff eithafol neu geisio gwneud hynny;
- Newid arwyddocaol o ran golwg a/neu ymddygiad;
- Profi lefel uchel o unigrwydd cymdeithasol yn sgil materion yn ymwneud ag argyfwng hunaniaeth neu argyfwng personol.

Fodd bynnag, gallai rhai o'r ffactorau hyn fod yn gysylltiedig â phryderon eraill ynghylch diogelu.

9.8 Dylai pryderon am eithafiaeth gael eu cyfeirio at yr Arweinydd Diogelu Dynodedig sy'n Bwynt Cyswllt Unigol neu aelodau arall o'r tîm Diogelu os bydd yr Arweinydd Dynodedig yn absennol. Pan fo hynny'n briodol, caiff atgyfeiradau eu cyfeirio at yr heddlu perthnasol.

10. DIOGELWCH AR-LEIN

- 10.1 Mae AOC | ALW yn deall pwysigrwydd darparu mynediad diogel at y cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau cyfathrebu sydd ar gael ar-lein, i gynorthwyo ag addysgu a dysgu.
- 10.2 Mae AOC | ALW yn ceisio rhoi cyfleoedd i'w holl ddysgwyr ddefnyddio technolegau'r rhyngrwyd yn ddiogel fel rhan o'u gweithgareddau dysgu.
- 10.3 Mae AOC | ALW yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i addysgu dysgwyr a staff am risgiau posibl defnyddio'r rhyngrwyd a'r dulliau lluniaru sy'n ofynnol i'w hamddiffyn hwy a'u teuluoedd ar-lein.
- 10.4 Bydd AOC | ALW yn cymryd pob cam ymarferol i ddiogelu offer TG a'r seilwaith sydd ar gael, yn cynnwys y defnydd o systemau hidlo gwefannau priodol.

- 10.5 Bydd AOC | ALW yn sicrhau bod holl ddefnyddwyr y systemau TG yn derbyn y datganiad Defnydd Derbyniol o TG wrth fewngofnodi i ddefnyddio ei beiriannau. Caiff aelod o staff ei hysbysu am unrhyw gamddefnydd neu bryder.
- 10.6 Ni ddylai defnyddwyr y rhyngwrwd ddefnyddio cyfleusterau rhyngwrwd i dorri'r gyfraith neu annog troseddu. Bydd AOC | ALW yn cydweithredu'n llawn ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith mewn achosion o'r fath.
- 10.7 Mae'n rhaid i ddefnyddwyr y rhyngwrwd gadw at y codau ymarfer dilynol:
- Peidio cyrchu unrhyw beth heb awdurdod na gwneud unrhyw addasiadau heb awdurdod i ddeunydd cyfrifiadurol (hacio)
 - Gwneud popeth yn eu gallu i ofalu nad ydynt yn dosbarthu deunydd sydd o dan hawlfraint mewn modd sy'n groes i'r hawlfraint
 - Ymdrechu'n rhesymol i ofalu nad ydynt yn dosbarthu deunyddiau difnewol
 - Peidio cyrchu, defnyddio, echdynnu, storio, dosbarthu, argraffu na datgelu unrhyw wybodaeth sy'n groes i'r gyfraith na phrosesu gwybodaeth o'r fath trwy unrhyw ddulliau eraill
- 10.8 Mae'n rhaid i diwtoriaid AOC |ALW sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn ymwybodol o faterion sy'n gysylltiedig â diogelwch ar-lein, yn cynnwys yr angen i osod meddalwedd amddiffynnol ar eu peiriannau'u hunain. Bydd adnoddau ar gael i gynorthwyo tiwtoriaid i wneud hyn.
- 10.9 Bydd yr holl staff yn cael cyfeiriad e-bost gwaith a bydd yn rhaid iddynt ddefnyddio hwn mewn unrhyw ohebiaeth â dysgwyr. Bydd yn rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n dymuno defnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion gwaith sefydlu tudalen sydd ar wahân i'w tudalennau personol. Gellir gwneud hyn gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost gwaith. Bydd yn rhaid i unrhyw diwtor sy'n creu grŵp ar-lein ar gyfer dysgwyr oruchwylio'r grŵp hwnnw.

11. ADNODDAU A DOGFENNAU DIOGELU AOC | ALW

- 11.1 Mae nifer o ddogfennau, adnoddau, gwefannau a dolenni sy'n ymwneud â diogelu ar gael i staff a dysgwyr. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn adran 'Cadw'n Ddiogel' gwefan AOC | ALW website; yn adran Diogelu Mewnwrwd Staff (Sharepoint) ac yn adran Diogelu a Prevent Moodle, yn cynnwys:-
- Siart Llif ynghylch sut i roi gwybod am bryder neu roi gwybod am ddatgeliad yn ymwneud â diogelu (Atodiad 1)
 - Cod Ymddygiad ynghylch Diogelu ar gyfer Staff a Gwirfoddolwyr AOC | ALW (Atodiad 4)
 - Ffurflen Cofnodi Digwyddiad Diogelu (Atodiad 5)
 - Fideos Rhyngweithiol
 - Ffurflen Asesu Risgiau
 - Cynlluniau gwersi ac adnoddau i'w defnyddio gyda dysgwyr
 - Fideo Gwerthoedd

Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol.

12. GWEITHDREFNAU I ROI GWYBOD AM BRYDER NEU DDATGELIAD YN YMWNEUD Â CHAMDRINIAETH NEU DDIOGELU

- 12.1 Rydym ni'n cefnogi ac yn annog yr holl ddysgwyr, gwirfoddolwyr, staff, ymwelwyr a sefydliadau sy'n bartneriaid i ni i roi gwybod am unrhyw bryderon a amheuir ynghylch diogelu i aelod o'r tîm Diogelu **cyn gynted ag y bo modd** (gweler Tabl 2 ar dudalen 13 i gael manylion cysylltu), ac yn ddelfrydol, o fewn 45 munud ar ôl dod yn ymwybodol o ddigwyddiad, amheuaeth neu ddatgeliad, os bydd un o'r canlynol yn digwydd:
- Pryder (pryder, anhawster neu amheuaeth yn ymwneud ag arferion neu driniaeth dysgwr neu gydweithiwr, neu eu hamgylchiadau)
 - Datgeliad (gwybodaeth am unigolyn sydd mewn perygl o niwed sylweddol neu'n profi hynny)
 - Honiad (y posibilrwydd y gallai aelod o staff neu wirfoddolwr achosi niwed i rywun y maent yn gyfrifol amdano/amdani).
- 12.2 Os na fydd Swyddog Diogelu eich rhanbarth neu eich adran ar gael, cysylltwch â Swyddog Diogelu arall. Mae'n HANFODOL sicrhau y rhoddir gwybod am unrhyw bryderon cyn gynted ag y bo modd.
- 12.3 Dylid hysbysu dysgwyr y gallant hysbysu eu tiwtor, neu Swyddog Cyflawni'r Cwricwlwm os bydd yn well ganddynt wneud hynny, am unrhyw gwynion, honiadau neu amheuan. Mae tiwtoriaid a Swyddogion Cyflawni'r Cwricwlwm yn gyfrifol am gysylltu'n uniongyrchol â Swyddog Diogelu i'w hysbysu am unrhyw faterion neu ddatgeliadau.
- 12.4 Dylai staff hysbysu Swyddog Diogelu yn syth am unrhyw faterion neu bryderon, a bydd y swyddog yn trafod y mater â'r tîm Diogelu yn ystod un o gyfarfodydd y Panel Diogelu. Bydd y Panel Diogelu yn gwneud penderfyniad ynghylch y ffordd orau o fynd ati i ymdrin â'r mater. Gallai hynny gynnwys cynnal ymchwiliad, atal rhywun o'i waith yn syth a/neu gysylltu ag asiantaethau allanol megis Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r heddlu os bydd hynny'n ofynnol.
- 12.5 Mae'n hanfodol sicrhau y rhoddir gwybod am unrhyw ddatgeliad, pryder neu honiad cyn gynted ag y bo modd, ac yn ddelfrydol, o fewn **45 munud** ar ôl i aelod o staff ddod yn ymwybodol o hynny. Os ydych chi'n aelod o'r staff addysgu neu'n Swyddog Cyflawni'r Cwricwlwm, gallai hynny olygu gofyn i'r dysgwyr eraill yn y dosbarth i fynd i gael egwyl, rhoi tasg arall iddynt ei gwneud, neu hyd yn oed eu hanfon adref yn lle parhau â'r sesiwn a mynd â dysgwr i rywle ble gallwch chi drafod yn gyfrinachol.
- 12.6 Dan yr amgylchiadau hynny lle mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddarparu profiadau dysgu, bydd y Swyddog Diogelu yn ystyried a ddylid cyfeirio'r mater at y sefydliad sy'n bartner.

12.7 Os bydd staff yn canfod bod dysgwr yn gwisgo Tag Electronig neu byddant yn cael gwybodaeth am hynny, dylent gysylltu ag aelod o'r Tîm Diogelu. Dan amgylchiadau o'r fath, gwneir asesiad o risgiau i asesu a oes unrhyw beryglon i'r dysgwr ei hunan ac i eraill y gall y dysgwr ddod i gysylltiad â hwy.

Tabl 2: Manylion cysylltu'r Tîm Diogelu

Enw	Teitl y Swydd	Rhif Ffôn Uniongyrchol	Rhif Ffôn Symudol
Cath Hicks	Arweinydd Diogelu Dynodedig, Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr ac Adnoddau	02921 678714	07931 204613
Rachel Burton	YCPW Coordinator	02920 382431	07960 858835
Jayne Ireland	Rheolwr Rhanbarthol, De Ddwyrain Cymru	02921 678 725	07787 423632
Sarah O'Connell Jones	Rheolwr Rhanbarthol, Gogledd Cymru	01248 363940 / 01492536693	07930 867920
Karen Fisher	Rheolwr Rhanbarthol, De Orllewin a Chanolbarth Cymru	01686 610270 / 01792 467791	07432 881123

12.8 Mae'n rhaid i staff roi gwybod am bryderon gan ddefnyddio'r Ffurflen Digwyddiad Diogelu (gweler Atodiad 5) sy'n rhan o'r polisi hwn, a bydd hynny'n darparu cofnod ysgrifenedig o natur y pryder ac yn cynnwys y wybodaeth berthnasol ddilynol sy'n cynnwys:

- dyddiad yr adroddiad a'r gamdriniaeth/pryder honedig
- amser yr adroddiad a'r gamdriniaeth/pryder honedig
- ble digwyddodd y gamdriniaeth honedig
- enw'r achwynwr, ac os yw hynny'n wahanol, enw'r unigolyn yr honnir ei fod/bod wedi cael ei gam-drin/cham-drin
- natur y gamdriniaeth honedig
- enw'r aelod o staff sy'n derbyn yr adroddiad ac enwau unrhyw aelodau staff eraill sy'n bresennol
- disgrifiad o unrhyw anafiadau a welwyd
- unrhyw wybodaeth arall a roddwyd i ddisgrifio'r honiad.

12.9 Dylid anfon Ffurflenni Digwyddiadau Diogelu at gyfeiriad e-bost dynodedig: safeguarding@adultlearning.wales

12.10 Rhoi Gwybod am Gaethwasiaeth Fodern

Mae AOC | ALW yn ymwybodol o'i ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw amheuan bod rhywun yn ddioddefydd caethwasiaeth neu fasnachu pobl trwy gyfrwng y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM). Bwriad y fframwaith hwn yw adnabod dioddefwyr masnachu pobl neu gaethwasiaeth fodern a sicrhau eu bod yn cael y cymorth priodol. Os bydd unrhyw aelod o staff yn amau y gallai dysgwr fod yn ddioddefydd caethwasiaeth neu fasnachu pobl, dylent gysylltu ag un o aelodau'r Tîm Diogelu yn y lle cyntaf. Mae'n rhaid i atgyfeiriad at yr NRM gael ei wneud gan sefydliad sydd wedi'i gofrestru â'r Swyddfa Gartref fel 'Sefydliad Ymatebwr Cyntaf'. Ystyrir bod yr holl Heddluoedd yn sefydliadau Ymatebwr Cyntaf.

12.11 Rhoi Gwybod am Gamdriniaeth gan Aelod o Staff

Os bydd honiadau neu bryderon bod aelod o staff yn cam-drin dysgwr, bydd yn rhaid hysbysu'r Arweinydd Diogelu Dynodedig neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn uniongyrchol am hynny. Os mynegir honiad neu amheuaeth o gamdriniaeth, bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn cynnal ymchwiliad cychwynnol i sefydlu a oes unrhyw sylwedd i'r honiad. Caiff Gweithdrefnau Disgyblu AOC | ALW eu gweithredu ynghyd â'r Gweithdrefnau Diogelu Oedolion. Bydd y penderfyniad i atgyfeirio honiad at asiantaethau allanol yn dilyn yr un broses ag unrhyw ddatgeliad arall ynghylch camdriniaeth neu unrhyw amheuan o gamdriniaeth, a bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn sefydlu hynny.

Mae Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (SVGA) yn gosod dyletswydd cyfreithiol ar gyflogwyr i gyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd unrhyw unigolyn sydd wedi: Niweidio plentyn neu oedolyn bregus (neu sy'n peri risg o niwed i blentyn neu oedolyn bregus);

- Cael rhybudd neu euogfarn am drosedd berthnasol;
- Gadael cyflogaeth o dan amheuaeth.

Dylid llunio cofnod cywir ar y pryd gan nodi manylion yr honiad neu'r sail dros amau bod camdriniaeth wedi digwydd, yn cynnwys:

- Dyddiad ac amser y digwyddiad;
- Manylion beth wnaethoch chi ei arsylwi;
- Beth mae'r dysgwr wedi'i ddweud am y gamdriniaeth a sut ddigwyddodd hynny, neu beth sydd wedi cael ei hysbysu i chi; defnyddiwch yr union eiriau a fynegir, yn hytrach nag aralleirio hynny;
- Golwg ac ymddygiad y dysgwr a'r tramgwyddwr honedig;
- Unrhyw anafiadau a welir;
- Enw'r dysgwr, teitl ei gwrs a'r ganolfan;
- Manylion cysylltu'r dysgwr.

Yn dilyn ymchwiliad cychwynnol, os gwneir penderfyniad i fwrw ymlaen â honiad o gamdriniaeth yn erbyn aelod o staff, ymdrinnir â hyn yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Disgyblu AOC | ALW.

Byddai'n well gennym ni i'n gwirfoddolwyr a'n cyflogeion ddefnyddio prosesau mewnol pan fo hynny'n bosibl i lunio adroddiad fel y nodir uchod, ond nid yw hyn yn eu hatal rhag anfon

adroddiad neu atgyfeiriad megis Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu, ac mae ganddynt hawl i wneud hynny fel unigolyn preifat. Rydym ni hefyd yn cefnogi ein staff neu ein gwirfoddolwyr i fynegi pryderon neu ddatgelu gwybodaeth, sydd yn eu tyb hwy yn dangos tystiolaeth o gamwedd, trwy wneud datgeliad gan yn unol â'r Polisi Chwythu'r Chwiban.

13. CYFRINACHEDD A CHYDSYNIAD

13.1 Cyfrinachedd

Mae unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelu dysgwyr yn gyfrinachol. Ni chaiff gwybodaeth ei datgelu i staff am ddysgwr, ac eithrio ar sail 'angen gwybod'.

Os oes gan aelod o staff bryderon yn ymwneud ag oedolyn, bydd yn rhaid iddynt rannu'r pryderon hyn â Swyddog Diogelu BOB AMSER. Dylai'r aelod o staff egluro wrth yr unigolyn mae ei (d)dyletswydd yw rhannu'r pryderon â'r Swyddog Diogelu. Mewn achos brys, dylai'r aelod o staff gysylltu â'r heddlu neu'r gwasanaeth brys perthnasol.

13.2 Cydsyniad - Oedolion

Bydd y gyfraith yn cymryd yn ganiataol y gall oedolion roi neu wrthod rhoi cydsyniad, oni fydd diffyg galluedd yn eu hatal rhag gwneud hynny. Os amheuir fod ar oedolyn angen amddiffyniad, dylid ystyried yn y lle cyntaf a yw'r unigolyn sydd dan sylw yn gallu rhoi cydsyniad, ac os felly, bydd yn rhaid ceisio cydsyniad. Gall nifer o resymau wneud i unigolion beidio cydsynio i rannu gwybodaeth ynghylch diogelu. Efallai na fyddant yn ymddiried yn yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol, neu efallai byddant yn ofni dialedd neu niweidio eu perthynas â'u teulu neu â'r camdriniwr. Bydd y Swyddog Diogelu yn gweithredu egwyddor cymesuredd yn achos unrhyw benderfyniadau am rannu gwybodaeth heb gydsyniad, a gwneir penderfyniadau ar sail amgylchiadau pob achos unigol. Os na fydd unigolion yn dymuno i wybodaeth amdanynt gael ei rhannu ag asiantaethau allanol, dylid parchu eu dymuniadau, ac eithrio o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Bydd dyletswydd i weithredu (h.y. efallai bydd trosedd wedi cael ei chyflawni);
- Lles y cyhoedd e.e. bydd perygl i unigolyn arall neu bobl eraill, boed yn blant neu'n oedolion;
- Ni fydd gan yr oedolyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniad i rannu gwybodaeth ynghylch diogelu – dylid ystyried hyn yn briodol a'i gofnodi yn unol â gofynion y Ddeddf Galluedd Meddyliol (gweler y canllawiau isod);
- Bydd gan y camdriniwr honedig anghenion gofal a chymorth ac efallai bydd ef neu hi mewn perygl hefyd;
- Bydd cais wedi cael ei wneud am y wybodaeth trwy orchymyn llys neu gan awdurdod cyfreithiol arall;
- Amheuir y gall yr oedolyn fod o dan ddylanwad amhriodol rhywun arall.

13.3 Galluedd Meddyliol

Yn ôl y diffiniad cyfreithiol, ni all rhywun sydd heb alluedd meddyliol priodol wneud un neu ragor o'r pedwar peth canlynol:

- Deall gwybodaeth a roddir iddynt.
- Dal y wybodaeth honno mewn cof yn ddigon hir i wneud penderfyniad.
- Pwysu a mesur y wybodaeth sydd ar gael i wneud penderfyniad.

- Cyfathrebu eu penderfyniad gan ddefnyddio unrhyw ddulliau posibl megis siarad, defnyddio iaith arwyddion neu hyd yn oed symudiadau cyhyrau syml megis amrantu'r llygaid neu wasgu llaw.

Bydd yn rhaid i'r Swyddog Diogelu gredu'n rhesymol na all yr unigolyn wneud penderfyniad ar sail y meini prawf uchod, ac ni all y Swyddog Diogelu wneud unrhyw benderfyniad i rannu gwybodaeth yn ymwneud â diogelu oni bydd hynny er lles pennaf yr unigolyn.

13.4 Cydsyniad - Plant

Mae rhannu a chyfnewid gwybodaeth yn effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol yn hanfodol er mwyn diogelu plant. Os bydd hynny'n bosibl, dylid sicrhau cydsyniad bod amser cyn rhannu gwybodaeth bersonol ag unrhyw drydydd parti, ond bydd lles y cyhoedd o safbwynt amddiffyn plant bod amser yn gorbwysu lles y cyhoedd o safbwynt cynnal cyfrinachedd neu gael cydsyniad gan deuluoedd. Wrth bwysu a mesur y buddiannau hyn, diogelwch plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf un.

14. ADNABOD ACHOSION DIOGELU POSIBL

14.1 Arwyddion bod plentyn yn cael ei gam-drin

Isod, rhestrir rhai o arwyddion cyffredin cam-drin plant, ac os gwelir hwy, gallai hynny awgrymu bod camdriniaeth wedi digwydd. Maent yn cynnwys y canlynol, ond nid dyma'r unig rai:

- Anafiadau anesboniadwy neu amheus megis cleisiau, toriadau neu losgiadau, yn enwedig os byddant wedi'u lleoli ar rannau o'r corff nad fyddanr fel arfer yn dueddol o gael anafiadau o'r fath
- Anafiadau y bydd esboniad yn eu cylch yn ymddangos yn anghyson
- Ofni y gwnaiff rhywun gysylltu â rhieni ynghylch anafiadau o'r fath
- Amharoddrwydd i newid dillad neu wisgo llewys hir pan fydd y tywydd yn boeth
- Plentyn yn gwingo wrth gael ei gyffwrdd neu pan fydd rhywun yn dynesu ato
- Methu ffynnu neu dyfu
- Anhwylderau lleferydd disymwth
- Trafferth gwneud ffrindiau
- Caiff y plentyn ei atal rhag cymdeithasu
- Newidiadau disymwth neu heb eglurhad mewn ymddygiad
- Plentyn yn ofni cael ei adael gydag unigolyn penodol
- Ymddygiad rhywiol eglur
- Gwybodaeth am faterion rhywiol y tu hwnt i oedran a lefel datblygiad plentyn
- Diffyg ymddiriedaeth mewn oedolion, yn enwedig y rhai y byddai disgwyl i blentyn fod â phaerthynas agos â hwy fel rheol
- Eisiau bwyd yn ddiiddiwedd, a dwyn bwyd ar brydiau
- Mae'r plentyn yn frwnt/drewllyd/blêr
- Colli pwysau
- Gwisg amhriodol ar gyfer yr amgylchiadau.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, ac mae'n bwysig cofio y gall rhai plant arddangos rhai o'r dangosyddion hyn ar ryw adeg neu'i gilydd, ac ni ddylai presenoldeb un neu ragor ohonynt gael ei dderbyn fel tystiolaeth bod camdriniaeth yn digwydd.

Efallai bydd rhesymau eraill dros newid mewn ymddygiad, er enghraifft, marwolaeth aelod o'r teulu neu enedigaeth baban newydd. Mae'n hanfodol sicrhau mai proses o arsylwi yn unig yw hyn, ac ni ddylai aelod o staff neu wirfoddolwr deimlo ar unrhyw adeg eu bod yn mynd ati'n benodol i ganfod camdriniaeth neu gamdriniwr.

Cyfrifoldeb yr aelod o staff neu'r gwirfoddolwr yw rhoi gwybod am unrhyw bryderon y bydd ganddynt.

14.2 Arwyddion y gall oedolyn fod yn dioddef camdriniaeth

Ni fydd hi'n hawdd canfod bod oedolyn yn cael ei gam-drin, oherwydd, ar brydiau, ni fydd natur y gamdriniaeth yn weladwy a/neu bydd y sawl sy'n cael ei gam-drin yn ofni codi ei lais. Fodd bynnag, mae rhai o'r arwyddion mwyaf cyffredin yn cynnwys y canlynol (nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol), ac os gwelir hwy, gallant awgrymu bod camdriniaeth wedi digwydd:

- Anafiadau anesboniadwy neu amheus megis cleisiau, toriadau neu losgiadau, yn enwedig os byddant wedi'u lleoli ar rannau o'r corff nad ydynt fel arfer yn dueddol o gael anafiadau o'r fath
- Anafiadau y bydd esboniad yn eu cylch yn ymddangos yn anghyson
- Ofni y gwnaiff rhywun gysylltu â gofalwyr ynghylch anafiadau o'r fath
- Iechyd yn dirywio heb unrhyw reswm amlwg dros hynny
- Colli pwysau
- Ymddwyn yn encilgar neu hwyliau yn newid
- Gofalwr yn gwrthod caniatáu mynediad at yr unigolyn
- Unigolyn sy'n anfodlon cael ei adael ei hun gyda gofalwr penodol neu sy'n anhapus ynghylch hynny
- Diffyg arian neu arian yn diflannu heb eglurhad.

Cyfrifoldeb yr aelod o staff neu'r gwirfoddolwr yw rhoi gwybod am unrhyw bryderon y bydd ganddynt a pheidio fyth a chymryd yn ganiataol y gwnaiff eraill wneud hynny.

15. YMWHYBYDDIAETH O NIWED NEU GAMDRINIAETH YN DIGWYDD YN Y SEFYDLIAD

15.1 Gall niwed gael ei achosi gan ddamweiniau; camdriniaeth fwriadol (corfforol, rhywiol, emosiynol ac ariannol); esgeulustod (bwriadol neu beidio); neu ffactorau megis bwlio; agweddau rhagfarnllyn; neu beidio galluogi unigolyn i gyfranogi mewn gweithgareddau sydd ar gael i'r mwyafrif o'u cymheiriaid.

15.2 Bydd angen ymateb priodol i unrhyw achosion o niwed i unrhyw un sy'n ymwneud â'n gwasanaethau er mwyn lleihau niwed a gwella ein gwasanaeth.

15.3 Bydd gweithredoedd niweidiol bwriadol (rhywiol, corfforol, emosiynol ac ariannol) ac esgeulustod a cham-drin tuag at unigolion sy'n ymwneud â'n gwasanaethau yn arwain at

achos disgyblu a bydd angen adroddiadau a chyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, cyrff proffesiynol eraill gan gynnwys Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) os bydd deiliad y swydd yn ymwneud â gweithgarwch rheoledig.

15.4 Os bydd risg o niwed sylweddol i'n dysgwyr, gwirfoddolwyr neu staff, bydd gan Swyddogion Diogelu rym i weithredu yn unol â hynny fel a ganlyn:

- Cofnodi unrhyw sgysiau am y mater
- Llofnodi a gofyn am lofnodion ar adroddiadau a datganiadau
- Ceisio cyngor yn gyfrinachol o ffynonellau arbenigol
- Rhannu pryderon (â chaniatâd pan fo angen hynny a phan fo hynny'n briodol) yn fewnol ag uwch aelod o staff/Cadeirydd y Corff Llywodraethu
- Rhannu pryderon ac anfon atgyfeiriadau at asiantaethau allanol megis Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu fe y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau
- Cyfeirio atgyfeiriad at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ynghylch staff neu wirfoddolwyr sy'n ymwneud â gweithgarwch rheoledig y mae eu hymddygiad yn niweidio i ddysgwr a phan fyddant yn cael eu hatal rhag gwneud gweithgarwch rheoledig.

15.5 Rydym ni'n annog staff neu wirfoddolwyr i roi gwybod am faterion sy'n amhriodol neu'n anghyfreithlon, neu os bydd unrhyw un yn y gweithle yn esgeuluso ei ddyletswyddau, yn peryglu iechyd a diogelwch rhywun neu'n ceisio cuddio camweddau. Yn y lle cyntaf, dylent drafod â Swyddog Diogelu; fodd bynnag, mae ganddynt hawl hefyd i roi gwybod am unrhyw gamymddwyn yn unol â Pholisi Chwythu'r Chwiban y sefydliad.

16. CYFATHREBU'R POLISI HWN

16.1 Byddwn yn cyfathrebu'r polisi hwn wrth yr holl staff, gwirfoddolwyr, dysgwyr, sefydliadau sy'n bartneriaid ac unrhyw unigolion eraill sy'n dod i gysylltiad â'r sefydliad gan ddefnyddio dulliau priodol megis cynnwys y polisi mewn unrhyw sesiynau sefydlu argyfer staff a dysgwyr; darparu hyfforddiant, diweddariadau a chyfeirio at adnoddau yn ystod sesiynau HMS/diwrnodau Tiwtoriaid; neu'n rhannu dogfennau canllawiau ac adnoddau defnyddiol trwy gyfrwng systemau rheoli gwybodaeth y Sefydliad megis Moodle, Sharepoint a'r Wefan.

16.2 Byddwn yn ymgysylltu'n weithredol â'r sefydliadau sy'n bartneriaid i ni i sicrhau bod pob sefydliad yr ydym yn is-contractio gwaith iddynt neu'n ymgymryd â gwaith ar eu rhan yn deall y polisi hwn, yn deall Dyletswydd Prevent ac yn cydweithio ag AOC | ALW er mwyn diogelu'r holl ddysgwyr sy'n astudio gyda ni.

17. MONITRO AC ADOLYGU


17.1 Cyfrifoldeb yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yw'r polisi hwn. Caiff ei adolygu'n flynyddol. Mae'r holl staff yn gyfrifol am weithredu a chadw at y polisi hwn.

17.2 Bydd gweithrediad y polisi hwn a'r gweithdrefnau hyn ac effeithlonrwydd hyfforddiant staff a'u dealltwriaeth o ddiogelu yn cael eu monitro gan y Grŵp Diogelu, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Diwygiwyd y ddogfen hon ym mis Rhagfyr 2019.

Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn cadw'r hawl i newid darpariaethau'r polisi hwn o bryd i'w gilydd yn unol â newidiadau mewn darpariaethau neu ganllawiau statudol, newidiadau yn y sefydliad neu unrhyw gytundebau a fydd mewn grym.

SIART LLIF YNGHYLCH YMDRIN Â PHRYDER A AMHEUIR NEU DDATGELIAD YN YMWNEUD Â DIOGELU (Atodiad 1)



Atodiad 2

ADNODDAU

Adnoddau i Gyfeirio Dysgwyr:

[https://www.adultlearning.wales/userfiles/files/Learner Resources/A to Z Learner Support Signposting 2017-18.pdf](https://www.adultlearning.wales/userfiles/files/Learner_Resources/A_to_Z_Learner_Support_Signposting_2017-18.pdf)

<http://www.childreninwales.org.uk/>

<https://www.nspcc.org.uk>

<https://www.childcomwales.org.uk/>

Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/47/contents>

Deddf Diogelu Rhyddidau

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/9/contents/enacted>

Atodiad 3

CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL I GAEL CYNGOR YNGHYLCH DIOGELU A PREVENT

- **YR HEDDLU**

Os oes gennych chi bryderon neu os oes arnoch chi angen cymorth, gallwch chi ffonio Llinell Gymorth yr Heddlu ar 0800 789 321 neu cysylltwch â'ch heddlu lleol trwy ffonio 101. Os oes arnoch chi angen cymorth ar frys gan yr heddlu, ffoniwch 999.

- **TIMAU DIOGELU AWDURDOD LLEOL**

Os oes arnoch chi angen rhagor o gyngor, gallwch chi hefyd gysylltu â Thîm Diogelu eich Awdurdod Lleol:

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru- www.northwalessafeguardingboard.wales

Bwrdd Diogelu Gogledd Canolbarth a Gorllewin Cymru - www.cysur.wales

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg - www.cardiffandvalersb.co.uk

Diogelu Gwent (Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent a Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru) - www.gwentsafeguarding.org.uk

- **CHANNEL**

Mae Channel yn rhaglen aml-asiantaethol sy'n cael ei rhedeg gan Awdurdodau Lleol, ac mae'n cynnwys gweithwyr proffesiynol a phartneriaid lleol. Bydd Channel yn cael atgyfeiriadau gan bobl sy'n pryderu am unigolion a all fod mewn perygl o gael eu denu at derfysgaeth.

Os ydych chi'n credu bod rhywun mewn perygl o wynebu camfanteisio neu gael ei radicleiddio, defnyddiwch broses atgyfeirio sefydledig AOC | ALW sy'n cael ei hamlinellu yn y Polisi Diogelu er mwyn uwchgyfeirio eich pryderon at yr Arweinydd Diogelu, a fydd yn gallu hysbysu Channel am eich pryderon os bydd hynny'n briodol.

- **LET'S TALK ABOUT IT- www.ltai.info/**

Mae *Let's Talk About It* yn gynllun sydd wedi'i lunio i gynnig cymorth ymarferol a chanllawiau er mwyn atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.

Atodiad 4

COD YMDDYGIAD YNGHYLCH DIOGELU AG GYFER STAFF A GWIRFODDOLWYR ADDYSG OEDOLION CYMRU | ADULT LEARNING WALES

1. Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn cydnabod nad yw'n ymarferol darparu cyfarwyddiadau diffiniol a fyddai'n berthnasol i bob sefyllfa bob amser lle bydd staff a gwirfoddolwyr yn dod i gysylltiad â dysgwyr ac i warantu amddiffyniad dysgwyr, staff a gwirfoddolwyr.
2. Fodd bynnag, disgrifir isod y safonau ymddygiad sy'n ofynnol gan staff a gwirfoddolwyr er mwyn cyflawni eu rolau a'u dyletswydd gofal yn y Sefydliad. Dylai'r cod hwn gynorthwyo i amddiffyn dysgwyr, aelodau staff a gwirfoddolwyr.
3. Mae'n rhaid i staff a gwirfoddolwyr weithredu'r Polisi Diogelu a Prevent a'r Gweithdrefnau Adroddiadau bob amser.
4. Ni ddylai staff a gwirfoddolwyr fyth:
 - gyfranogi mewn gemau corfforol brwnt gyda dysgwyr
 - caniatáu cyffwrdd amhriodol o unrhyw fath neu gyfranogi yn hynny
 - gwneud pethau o natur bersonol i ddysgwyr
 - atal dysgwr yn gorfforol ac eithrio os mai bwriad gwneud hynny fydd atal anaf corfforol i'r dysgwr/dysgwyr eraill/ymwelwyr neu staff/gwirfoddolwyr/chi eich hun. O dan unrhyw amgylchiadau, bydd yn rhaid i ataliaeth corfforol fod yn briodol ac yn rhesymol, neu fel arall, gall y weithred gael ei hystyried yn ymosodiad
 - dweud sylwadau rhywiol awgrymog
 - bod ar eu pen eu hunain gyda dysgwyr mewn cerbyd. Pan fydd amgylchiadau yn ei gwneud yn ofynnol i gludo dysgwyr yn eu cerbyd, dylai aelod arall o staff neu wirfoddolwr deithio yn y cerbyd hefyd. Mae'n hanfodol hefyd sicrhau bod polisi yswiriant addas yn ei le i'ch galluogi i gludo dysgwyr yn eich cerbyd fel rhan o fusnes eich gwaith. Mewn achosion brys eithriadol (at ddibenion meddygol) pan fydd angen cludo dysgwyr ar ei ben ei hun, bydd yn hanfodol hysbysu'r gofalwr ac uwch aelod o staff
 - mynd â dysgwr i'r toiled oni bydd oedolyn arall yn bresennol neu wedi cael ei hysbysu

- treulio amser ar eu pen eu hunain gyda dysgwr, y tu allan i sefyllfa arferol tiwtorial neu ddsbarth. Os byddwch chi fyth mewn sefyllfa pan fyddwch chi ar eich pen eich hun gyda dysgwr, sicrhewch y gall pobl eraill eich gweld yn glir
 - cyfranogi mewn perthynas bersonol gyda dysgwr, y tu hwnt i'r hyn sy'n briodol yn achos perthynas athro/myfyriwr
 - rhoi manylion cysylltu personol i ddysgwyr, e.e. rhifau ffôn preifat, cyfeiriadau e-bost preifat neu fynediad at gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol
5. Gall staff neu wirfoddolwyr sy'n torri unrhyw un o'r rheolau uchod wynebu camau disgyblu yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Disgyblu Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales.

FFURFLEN DIGWYDDIAD DIOGELU
Hollol Gyfrinachol

Enw'r aelod o staff		Enw'r Dysgwr	
Cod y Cwrs		Man cyfarfod	

Ffeithiau am y digwyddiad/datgeliad/newid sylweddol mewn ymddygiad/arwyddion o gamdriniaeth fel yr adroddwyd hwy.

Dyddiad		Amser	
Lle			
Manylion			

Enw'r aelod o staff sy'n rhoi gwybod am y digwyddiad		
Camau a gymerwyd (os cymerwyd unrhyw gamau)		
A yw'r dysgwr wedi cael ei hysbysu y caiff y wybodaeth ei rhannu?		
Llofnod y Dysgwr (os yn berthnasol)		
Llofnod yr Aelod o Staff		
Dyddiad		
A hysbyswyd Swyddog Diogelu?	Do/Naddo	Dyddiad:

Dylid anfon y ffurflen hon at Swyddog Diogelu cyn gynted ag y bo modd, trwy e-bostio safeguarding@adultlearning.wales